OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1182

# Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018

## RHAN 5

## Troseddau

**Y drosedd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad**

**21.**—(1) Mae person sy'n methu â chydymffurfio â hysbysiad stop dros dro, hysbysiad gorfodi neu hysbysiad stop yn euog o drosedd, ac yn agored—

(a) ar euogfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy nag £20,000, neu

(b) ar euogfarn ar ddtiad, i ddirwy.

(2) Wrth benderfynu ar swm y ddirwy, rhaid i'r llys roi sylw yn benodol i unrhyw fantais ariannol sydd wedi cronni, neu yr ymddengys ei bod wedi cronni, i'r person sy'n cael euogfarn o ganlyniad i'r drosedd.

**Y drosedd o rwystro**

**22.** Mae person sy'n rhwystro yn fwriadol person awdurdodedig sy'n arfer pwerau mynediad—

(a) yn euog o drosedd, a

(b) yn agored, ar euogfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

**Troseddau gan gyrff corfforaethol**

**23.**—(1) Os profir bod trosedd o dan y Gorchymyn hwn a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol—

(a) wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad swyddog, neu

(b) i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog—

bydd y swyddog, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r drosedd a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "swyddog", mewn perthynas â chorff corfforaethol, yw—

(a) cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall tebyg i'r corff, neu

(b) person sy'n honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swydd o'r fath.

(3) Os rheolir materion corff corfforaethol gan ei aelodau, mae paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â gweithredoedd a diffyg gweithredoedd aelod mewn cysylltiad â swyddogaethau rheoli'r aelod fel y mae'n gymwys i swyddog corff corfforaethol.

**Troseddau gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig**

**24.**—(1) Rhaid i achos ar gyfer trosedd o dan y Gorchymyn hwn yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan bartneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig gael ei dwyn yn erbyn y bartneriaeth neu'r gymdeithas yn enw'r bartneriaeth neu'r gymdeithas.

(2) At ddibenion achosion o'r fath—

(a) mae rheolau'r llys sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau yn cael effaith fel pe bai'r bartneriaeth neu'r gymdeithas anghorfforedig yn gorff corfforaethol, a

(b) mae'r darpariaethau a ganlyn yn gymwys fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chorff corfforaethol—

(i) adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925(**1**);

(ii) Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(**2**).

(3) Mae dirwy a osodir ar bartneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig ar euogfarn am drosedd o dan y Gorchymyn hwn i'w thalu o gronfeydd y bartneriaeth neu'r gymdeithas.

(4) Os profir bod trosedd o dan y Gorchymyn hwn a gyflawnwyd gan bartneriaeth—

(a) wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad partner, neu

(b) i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran partner—

mae'r partner, yn ogystal â'r bartneriaeth, yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(5) Ym mharagraff (4), mae "partner" yn cynnwys person sy'n honni ei fod yn gweithredu fel partner.

(6) Os profir bod trosedd o dan y Gorchymyn hwn a gyflawnwyd gan gymdeithas anghorfforedig (ac eithrio partneriaeth)—

(a) wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad un o swyddogion y gymdeithas, neu

(b) i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog o'r fath—

mae'r swyddog, yn ogystal â'r gymdeithas, yn euog o'r drosedd a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(7) Ym mharagraff (6), ystyr "swyddog", mewn perthynas â chymdeithas anghorfforedig, yw—

(a) un o swyddogion y gymdeithas neu aelod o'i chorff llywodraethu, neu

(b) person sy'n honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd swydd o'r fath.

---

(**1**) 1925 p. 86. Diwygiwyd adran 33 gan Atodlen 6 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1952 (p. 55); paragraff 19 o Atodlen 8 i Ddeddf Llysoedd 1971 (p. 23) ac Atodlen 10 i Ddeddf Llysoedd 2003 (p. 39).

(**2**) 1980 p. 43. Diwygiwyd Atodlen 3 gan Atodlen 13 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991 (p. 43) a pharagraffau 51(13)(a) a (b) o Atodlen 3 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p. 44).